Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Hawliau Pobl Anabl, Cymru

## Ein cynllun 10 mlynedd



Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o ‘**Gynllun Hawliau Pobl Anabl, Cymru (2025-2035)**’.

**Mai 2025**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau glas yn ei feddwl ar **dudalen 49**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llyw.cymru/cynllun-drafft-ar-hawliau-pobl-anabl

**Ebost:** YmgynghoriadCynllunHawliauPoblAnabl@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosybols 403527247

# Cynnwys

Canllaw cyflym i'r cynllun yma ........ 4

Pobl anabl yng Nghymru ........ 8

Ein nodau ........ 10

Cymdogaethau a lleoedd ........ 11

Cyflogaeth, Incwm ac Addysg ........ 19

Byw'n annibynnol ........ 24

Cyfiawnder ac amgylcheddau cefnogol ........ 28

Edrych ar y cynllun yma ........ 34

Ffurflen ymateb ........ 35

Cwestiynau ........ 37

Geiriau anodd ........ 49

# Canllaw cyflym i'r cynllun yma



Rydyn ni wedi gwneud y cynllun 10 mlynedd yma i ddatblygu hawliau pobl anabl yng Nghymru.



Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn lle haws i bobl anabl fyw. Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn lle teg.



Mae yna broblemau yn aml mewn cymdeithas sy'n gwneud bywyd yn fwy anodd i bobl anabl.




Ond mae'r rhain yn bethau rydyn ni'n gallu eu newid. Er enghraifft, gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael mynediad at adeiladau.



Mae’n rhaid i ni wneud yn siŵr bod Cymru’n lle mae pobl anabl:

- gyda’r un hawliau,
- yn gallu cymryd rhan,
- ac yn teimlo eu bod wedi’u cynnwys.

Mae’r cynllun yma yn cael ei arwain gan:




- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl**



- a’n **Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol**.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl



Dyma gytundeb cyfreithiol rhwng gwledydd ar draws y byd.





Mae'n dweud bod gan bobl anabl yr un hawliau â phawb arall.



Mae'n dweud beth ddylai llywodraethau ei wneud i wneud yn siŵr bod gan bobl anabl yr hawliau yma.

## Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol




Mae gennym ni 7 amcan cydraddoldeb cenedlaethol. Maen nhw'n nodau i'n helpu i wneud Cymru'n gyfartal i bawb. Maen nhw'n arwain holl waith Llywodraeth Cymru i helpu i wneud i hyn ddigwydd.




Dyma ein cynllun 10 mlynedd. Mae'n dweud beth fyddwn ni'n ei wneud rhwng 2025 a 2035 i wneud Cymru'n fwy cyfartal i bobl anabl.




Mae dogfen arall yn mynd gyda'r cynllun yma. Mae'n dweud:

- beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn,
- a pha gamau fyddwn ni'n eu gwneud nesaf.




Rydych chi'n gallu darllen hwn yma os ydych chi eisiau: [www.llyw.cymru/cynllun-drafft-ar-hawliau-pobl-anabl](http://www.llyw.cymru/cynllun-drafft-ar-hawliau-pobl-anabl)



Dim ond os ydy sefydliadau a phobl yng Nghymru yn gweithio gyda'i gilydd y bydd y cynllun yma yn gweithio.



Fe fyddwn ni'n sefydlu grŵp i roi cyngor a chefnogaeth ar gyfer hyn. Fe fydd yn cael ei alw'n **Bwrdd Cynghori Allanol**.

# Pobl anabl yng Nghymru



Mae tua 1 o bob 5 o bobl yng Nghymru yn anabl.



Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o gael **namau**.



Mae **nam** yn rhywbeth sy'n stopio eich corff neu'ch ymennydd rhag gweithio fel y dylai wneud. Mae hyn efallai oherwydd eich bod chi'n sâl, wedi'ch anafu, neu fod gennych broblem iechyd.



Mae menywod yn fwy tebygol o fod yn anabl.




Mae pobl anabl yn llai tebygol o gael cymwysterau a swyddi.




Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi lle mae llai o arian ar gyfer anghenion sylfaenol.



Mae hyn yn aml oherwydd bod gan bobl anabl lai o siawns mewn bywyd.



Mae’r ffordd mae cymdeithas wedi’i sefydlu yn gwneud pethau’n fwy anodd i bobl anabl.

# Ein nodau



**Ein prif nod ydy datblygu hawliau pobl anabl a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu cynnwys.**



Rydyn ni wedi torri hyn i lawr i edrych ar 4 maes gwahanol o fywydau pobl. Rydyn ni wedi gosod nod ar gyfer pob un o'r meysydd yma.



Mae'r 4 maes yn cael eu galw yn:

- **Cymdogaethau a lleoedd**
- **Cyflogaeth, incwm ac addysg**
- **Byw'n annibynnol**
- **Cyfiawnder ac amgylcheddau cefnogi**

## Teithio




- Rydyn ni eisiau i wasanaethau teithio fod yn **hygyrch** i bobl anabl.

> Mae **hygyrch** yn meddwl bod unrhyw un yn gallu defnyddio rhywbeth yn hawdd. Gyda thrafnidiaeth - mae hyn yn meddwl eu bod yn gallu defnyddio trafnidiaeth yn hawdd a mynd o gwmpas yn llawer haws.



- Rydyn ni eisiau cefnogi staff sy'n gweithio ym maes trafnidiaeth i ddeall y problemau mae pobl anabl yn eu wynebu.



- Rydyn ni eisiau rheolau am drafnidiaeth a gofyn i bobl anabl ddweud beth maen nhw'n feddwl.



- Rydyn ni eisiau gwybodaeth deithio **hygyrch**. Er enghraifft, Hawdd ei Ddeall.



- Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod gwasanaethau teithio yn cael eu rheoli'n dda a bod y nodau yma yn cael eu cyflawni.



Enghreifftiau o rai o'r problemau mae pobl yn eu wynebu gyda theithio ydy:

- Llwybrau wedi'u blocio

- Dim cyrbiau wedi'u gollwng mewn arosfannau bysiau



Mae'r mathau yma o bethau yn effeithio ar bobl anabl i gysylltu ag eraill, mynd i'r gwaith, teimlo'n ddiogel a phethau eraill.

# Tai



- Mae angen i bobl anabl wybod eu hawliau tai a gallu gwneud dewisiadau.



- Rydyn ni eisiau tai mwy **hygyrch**. Mae hyn yn meddwl tai mae pobl anabl yn gallu eu defnyddio, eu fforddio, ac sydd â'r offer cywir ar gyfer eu hanghenion.



- Rydyn ni eisiau mwy o wasanaethau i'w cefnogi gyda thai **hygyrch**.



- Rydyn ni eisiau i reolau a chynlluniau tai gynnwys pobl anabl.



- Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod gwasanaethau tai yn cael eu rheoli'n dda.



- Rydyn ni eisiau i bobl anabl gael gwybodaeth am dai mewn ffordd **hygyrch**. Er enghraifft, yn Hawdd ei Ddeall.



- Rhaid i staff tai ddeall y problemau mae pobl anabl yn eu wynebu.




Mae'n bwysig iawn bod gan bobl anabl wybodaeth am dai maen nhw'n gallu cael mynediad iddyn nhw a'u defnyddio.



Mae hyn yn helpu i wneud yn siŵr eu bod yn gallu gwneud y dewisiadau cywir a chael mynediad cyfartal at dai.



Mae pobl anabl hefyd angen cartrefi sy’n ateb eu hanghenion. Mae hyn yn gallu meddwl pethau fel rampiau cadair olwyn, drysau mwy llydan, bariau cydio a chawodydd mynediad gwastad.



Mae hyn yn bwysig iawn ar gyfer iechyd a lles. A hefyd am annibyniaeth.



Mae grantiau ar gael i helpu i wneud cartrefi yn **hygyrch**.


# Model Cymdeithasol o Anabledd



Mae'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn ffordd o feddwl am ac ystyried anabledd.



Mae'n dweud bod y ffordd y mae cymdeithas yn gweithio yn gallu stopio pobl anabl rhag gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud.



Dydy person ddim yn anabl gan ei **nam** neu ei wahaniaeth. Mae person yn anabl gan bethau yn ein cymdeithas.



Mae angen i gymdeithas newid ac addasu fel bod gwasanaethau yn ateb anghenion pobl. Mae hyn yn meddwl agweddau a dealltwriaeth pobl.




- Rhaid sefydlu gwasanaethau cyhoeddus fel bod pobl anabl yn gallu eu defnyddio’n hawdd.



- Rhaid i bobl anabl allu defnyddio’r gwasanaethau yn eu cymunedau.



- Rhaid trin pobl anabl yn gyfartal ac yn deg.



Trwy ddefnyddio’r **Model Cymdeithasol o Anabledd**, rydyn ni’n gallu gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael eu gwerthfawrogi a’u trin yn gyfartal.

## Iaith Arwyddion Prydain (BSL)



Iaith Arwyddion Prydain ydy'r iaith gyntaf, neu'r iaith mae llawer o bobl fyddar yng Nghymru yn ei ffafrio.




Rydyn ni eisiau i'r polisi gynnwys y gymuned BSL yng Nghymru.

Rydyn ni eisiau:



- Gwybodaeth a gwasanaethau i fod yn hygyrch i arwyddwyr BSL.



- Llywodraeth i weithio gyda arwyddwyr BSL i ddylunio, cyflwyno ac edrych ar bolisïau a gwasanaethau.

## Cyflogaeth, Incwm ac Addysg



- Rhaid i bobl anabl allu cael cyngor a chefnogaeth i weithio a gwirfoddoli.



- Rhaid i bobl anabl gael dweud beth maen nhw'n feddwl am ganllawiau a gweithdrefnau'r gweithle.



- Rydyn ni eisiau i bobl anabl allu gweithio ar draws pob lefel o gyflogaeth. A chael eu trin yn gyfartal ac yn deg yn y gwaith.




- Rydyn ni eisiau i bobl anabl ddeall eu hawliau am waith. Ac i gael mynediad at waith a hyfforddiant yn hawdd.




- Rydyn ni eisiau i bobl anabl gael dweud beth maen nhw'n feddwl am fudd-daliadau lles a newidiadau. Mae'r rhain yn cael eu rhedeg gan Lywodraeth y DU.




- Rydyn ni eisiau i bobl anabl gael mynediad cyfartal at eu hanghenion sylfaenol. Er enghraifft, cael digon o arian, cartref gweddus, gwresogi a phethau sylfaenol eraill.



Dydy llawer o bobl anabl sydd eisiau gweithio ddim yn gallu gwneud, oherwydd pethau fel:

- Methu mynd i mewn i'r gofod

- Heb gael y gefnogaeth gywir




Mae llawer o gyflogwyr yn methu â deall a dilyn y **Ddeddf Cydraddoldeb**.



Mae pobl anabl yn aml yn ennill llai o arian na phobl sydd ddim yn anabl.



Mae'n bwysig iawn bod gan bawb yn y gymdeithas gyfleoedd teg i gael swydd dda ac ennill digon o arian.

# Addysg i Blant a Phobl Ifanc



- Rydyn ni eisiau cefnogi anghenion addysg ac iechyd plant a phobl ifanc anabl.



- Rydyn ni eisiau i ddysgwyr a staff anabl fod yn rhan o reolau a chynlluniau addysg.



- Rhaid i wasanaethau addysg ddeall a dilyn y **Model Cymdeithasol o Anabledd**.



- Rydyn ni eisiau i addysg gael ei wirio a'i archwilio, er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn **hygyrch**.




- Rydyn ni eisiau i lefydd fel ysgolion a cholegau fod yn **hygyrch**. Yn nyluniad eu hadeiladau a'r gefnogaeth maen nhw'n ei gynnig.



- Rydyn ni eisiau i rieni a babanod a phlant byddar gael y cyfle i ddysgu BSL.



- Rydyn ni eisiau i fwy o athrawon allu defnyddio BSL.



Mae'n bwysig iawn i blant anabl gael mynediad da at addysg, sy'n iawn i'w hanghenion.



Mae'n bwysig i'w dyfodol ac iddyn nhw fod yn rhan o gymdeithas.

## Lles



- Rydyn ni eisiau i bobl anabl gael cyfleoedd a hawliau teg i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd. Er enghraifft, celf, chwaraeon, diwylliant.



- Rydyn ni eisiau i blant ac oedolion anabl gael mynediad teg i weithgareddau hamdden a chwarae yn eu hardal leol.




- Rydyn ni eisiau i bobl anabl allu defnyddio gwasanaethau lleol a chyfathrebu mewn ffordd sy'n iawn iddyn nhw. Er enghraifft, Iaith Arwyddion Prydain a Chymraeg.

# Iechyd, gofal a chymorth



- Rydyn ni eisiau i bobl anabl dderbyn y safon uchaf o ofal a chefnogaeth.



- Rydyn ni eisiau i bobl anabl gael mynediad at ofal a chefnogaeth sy'n ateb eu hanghenion a'u dewisiadau.




- Rydyn ni eisiau i bobl anabl fod yn rhan o'r broses a chael dweud beth maen nhw'n feddwl am sut mae gwasanaethau yn cael eu rhedeg.



- Rydyn ni eisiau i bobl anabl gael mynediad cyfartal at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Ac i wasanaethau ateb anghenion pobl anabl.



- Rydyn ni eisiau i bobl anabl fod yn rhan o redeg gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.




- Rydyn ni eisiau i bobl anabl ddeall eu hawl i gyfathrebu mewn ffordd sy'n ateb eu hanghenion.



Mae llawer o bobl anabl yn cael trafferthion cael mynediad i ysbytai a symud o'u cwmpas.



Mae pobl anabl yn aml yn cael iechyd gwael yn gyffredinol oherwydd problemau fel hyn.



Fe ddylai pobl dderbyn y gofal iawn, ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn. Ac fe ddylen nhw ei dderbyn yn deg ac yn gyfartal.



Rhaid i bobl hefyd allu derbyn gwybodaeth a chyfathrebu mewn ffordd sy'n iawn i'w hanghenion.



Rhaid i bobl hefyd gael eu **rhyddhau** o'r ysbyty yn y ffordd a'r amser cywir.

**Rhyddhau o'r ysbyty** ydy'r broses sy'n digwydd pan fydd claf yn gadael yr ysbyty.



Mae hyn yn gallu cael effaith enfawr ar adferiad ac iechyd meddwl pobl.



Mae pobl anabl mewn risg uwch o brofi problemau iechyd meddwl. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod gwasanaethau yn gyfartal, yn deg ac yn cefnogi pobl yn y ffordd iawn.



Mae gan bobl anabl yr hawl i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol teg a chyfartal. Rhaid eu gwella i wneud yn siŵr bod pobl anabl yn gallu cael mynediad atyn nhw.

# Cyfiawnder ac amgylcheddau cefnogol




Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael mynediad i'r **system gyfiawnder**. A chael y gefnogaeth maen nhw ei angen.

Y **system gyfiawnder** ydy llysoedd, heddlu, a charchardai. Mae'n gwneud yn siŵr bod pobl yn dilyn y gyfraith.

## Mynediad at gyfiawnder



- Rydyn ni eisiau i bobl anabl gael gwell profiadau gyda'r **system gyfiawnder**. Trwy hyrwyddo hawliau a gwasanaethau gwell i bobl.



- Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn deall eu hawliau am gyfiawnder. Hefyd, mae ganddyn nhw fynediad at gyngor cyfreithiol ble bynnag maen nhw yng Nghymru.



- Rydyn ni eisiau i bobl anabl sy'n profi **cam-drin rhywiol** a **domestig** gael y cymorth maen nhw ei angen.





**Cam-drin** ydy pan fydd rhywun yn dweud neu'n gwneud rhywbeth i'ch brifo neu wneud i chi deimlo'n ddrwg.

**Cam-drin rhywiol** ydy pan fydd rhywun yn cyffwrdd â'ch corff neu rannau preifat heb eich caniatâd, neu'n gwneud i chi gyffwrdd â nhw mewn ffordd nad ydych chi ei eisiau.

Mae **cam-drin domestig** yn meddwl unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwed i rywun. Mae'n cael ei wneud gan bartner, cyn-bartner neu aelod o'r teulu



- Rydyn ni eisiau i reolau am gyfiawnder ddilyn y **Model Cymdeithasol o Anabledd**.



- Fe fydd ymchwil yn cael ei wneud i helpu i wella profiad pobl anabl o'r **system gyfiawnder**.



Mae llawer o bobl anabl yn cael eu trin yn wael. Mae hyn yn aml oherwydd nad ydy rhai pobl yn deall y materion yn iawn.



Ond dydy pobl anabl yn aml ddim yn adrodd am y troseddau yma. Mae hyn oherwydd eu bod yn ofni na fyddan nhw yn cael eu cymryd o ddifrif.




Rydyn ni'n credu ei bod yn bwysig iawn gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn deall eu hawliau ac yn gwybod sut i riportio troseddau.




Mae angen i bobl hefyd gael gwybodaeth am y materion yma mewn ffordd maen nhw'n gallu eu deall. Er enghraifft, yn Hawdd ei Ddeall ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

# Mynediad at wasanaethau



Mae hyn yn meddwl lleoedd a gwasanaethau mae pobl yn gallu eu defnyddio'n hawdd. A chael cefnogaeth lle mae angen.



- Rydyn ni eisiau cymdeithas lle mae pobl anabl yn cael eu trin yn gyfartal, yn deg ac yn garedig. A lle maen nhw'n teimlo eu bod wedi'u cynnwys.



- Mae angen cyllid ar sefydliadau pobl anabl. Mae hyn yn eu helpu i wneud eu gwaith i ddatblygu hawliau pobl anabl.



- Rhaid i wasanaethau cyhoeddus ddeall y **Model Cymdeithasol o Anabledd** a hawliau pobl anabl. Rhaid iddyn nhw redeg gwasanaethau yn dda i bobl anabl.




- Rhaid i bobl anabl chwarae rhan bwysig yng ngwleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus Cymru.



- Fe ddylai pobl anabl gael eu cynrychioli gan Lywodraeth Cymru sy'n eu deall a'u parchu.




Mae pobl anabl yn aml yn cael eu gadael allan pan nad ydyn nhw'n gallu defnyddio **gwasanaethau digidol** yn hawdd. Er enghraifft, gwefannau a llwyfannau ar-lein.




Enghraifft arall ydy lle nad ydy rhai siopau a lleoedd eraill yn cymryd arian parod. Dydy pawb ddim yn gallu talu gyda cherdyn.




Mae **Mencap Cymru** wedi gofyn am ddefnyddio arian parod a chardiau mewn siopau a bwytai.




Mae'r **Ddeddf Cydraddoldeb** yn dweud bod rhaid gwneud newidiadau mewn cymdeithas i gefnogi pobl anabl.



Rhaid i bobl allu defnyddio technoleg sydd yn gallu helpu i wneud eu bywydau yn haws.



Fe fyddwn ni'n edrych ar hyn fel rhan o addewid yn ein Cynllun Gweithredu Strategaeth Anabledd Dysgu.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod beth mae pobl anabl yn feddwl yn cael ei glywed ac yn llywio ein gwaith.



Rydyn ni hefyd eisiau i bobl anabl gael rôl yn y Senedd a llywodraeth leol.

# Edrych ar y cynllun yma




Fe fydd y tîm **Cynhwysiant Pobl Anabl** yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru. Fe fyddan nhw'n edrych ar y gwahaniaethau a'r gwelliannau mae'r cynllun hwn yn eu gwneud.



Fe fyddwn ni'n sefydlu grŵp o'r enw y **Bwrdd Cynghori Allanol** i gynghori a chefnogi ar y cynllun yma.



Fe fydd y bobl yn y grŵp yma yn cynnwys pobl anabl, arbenigwyr anabledd a sefydliadau pobl anabl.



Fe fyddan nhw'n chwarae rhan bwysig wrth wneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg yng Nghymru.

# Ffurflen ymateb



**Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl am y cynllun yma.**



Mae beth rydych chi'n feddwl yn bwysig iawn. Fe fydd yn ein helpu i wneud yn siŵr bod anghenion pobl anabl yn cael eu hateb.



Ar ôl i ni edrych ar atebion pobl, fe fyddwn ni'n gwneud fersiwn derfynol o'r cynllun.




Llanwch y ffurflen yma a'i hanfon yn ôl erbyn **7 Awst 2025**.



**Rydych chi'n gallu ei anfon drwy e-bost at:**
[YmgynghoriadCynllunHawliauPoblAnabl@llyw.cymru](mailto:YmgynghoriadCynllunHawliauPoblAnabl@llyw.cymru)



**Neu ei bostio i:**

Tasglu Hawliau Anabledd
Yr Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ




Os ydych chi eisisau cael fersiwn hawdd ei ddeall o sut rydyn ni'n cadw ac yn defnyddio'ch gwybodaeth, cysylltwch â ni.

# Cwestiynau



1. Ein prif nod ydy datblygu hawliau pobl anabl a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu cynnwys.

**Beth ydych chi'n ei feddwl am y prif nod yma? Meddyliwch am bethau fel:**

- **Fydd y nod yma yn gwella cydraddoldeb i bobl anabl?**
- **Beth sydd yn gallu cael ei ychwanegu neu ei adael allan?**



2. Fe wnaethon ni rannu'r nod yma yn 4 maes:

- Cymdogaethau a lleoedd
- Cyflogaeth, incwm ac addysg
- Byw'n annibynnol
- Cyfiawnder ac amgylcheddau cefnogol



**Beth ydych chi'n ei feddwl am y meysydd yma? Er enghraifft:**

- **Ydy'r meysydd yn sôn am y prif faterion y mae pobl anabl yn eu profi?**
- **Oes yna unrhyw feysydd y dylid eu hychwanegu?**



3. O dan bob un o'r 4 maes, rydyn ni wedi bod yn siarad am rai o'r problemau mae pobl anabl yn eu wynebu. Er enghraifft, problemau sy'n eu wynebu gyda teithio, tai ac addysg.

   Rydych chi'n gallu darllen amdanyn nhw ar dudalennau 12 i 33.

   **Ydych chi'n meddwl ein bod wedi delio â'r prif broblemau mae pobl anabl yn eu wynebu? Oes yna unrhyw beth ar goll?**




4. Ar dudalennau 11 i 17 rydyn ni wedi bod yn siarad am gymdogaethau a lleoedd.

   **Fydd y rhestr hon yn helpu i ddelio â’r problemau mae pobl anabl yn eu wynebu? Dywedwch wrthyn ni:**

   - **os ydych chi’n meddwl y dylid ychwanegu neu newid unrhyw beth,**
   - **a dywedwch pam os ydych chi’n gallu.**



5. Ar dudalennau 19 i 23 rydyn ni wedi bod yn siarad am Gyflogaeth, Incwm ac Addysg.

   **Fydd y rhestr yma yn helpu i ddelio â'r problemau mae pobl anabl yn eu wynebu? Dywedwch wrthyn ni:**

   - **os ydych chi'n meddwl y dylid ychwanegu neu newid unrhyw beth,**
   - **a dywedwch pam os ydych chi'n gallu.**



6. Ar dudalennau 24 i 27 rydyn ni wedi bod yn siarad am Fyw'n Annibynnol.

   **Fydd y rhestr yma yn helpu i ddelio â'r problemau mae pobl anabl yn eu wynebu? Dywedwch wrthyn ni:**


   - **os ydych chi'n meddwl y dylid ychwanegu neu newid unrhyw beth,**
   - **a dywedwch pam os ydych chi'n gallu.**




7. Ar dudalennau 28 i 33 rydyn ni wedi bod yn siarad am Gyfiawnder ac Amgylcheddau Cefnogi.

   **Fydd y rhestr yma yn helpu i ddelio â'r problemau mae pobl anabl yn eu wynebu? Dywedwch wrthyn ni:**

   - **os ydych chi'n meddwl y dylid ychwanegu neu newid unrhyw beth,**
   - **a dywedwch pam os ydych chi'n gallu.**




**8. Beth ydych chi'n ei feddwl am y cynllun cyfan? Meddyliwch am:**

- **Beth ydych chi'n meddwl fydd y cynllun yn ei wneud i bobl anabl yng Nghymru?**
- **Ydych chi'n meddwl y bydd y cynllun yn helpu i wella pethau?**
- **Fydd y cynllun yn gweithio ar gyfer gwahanol grwpiau? Er enghraifft, plant a phobl ifanc.**




9. Ar dudalen 34 rydyn ni wedi bod yn siarad am edrych dros y cynllun.

   **Ydych chi’n cytuno â sut rydyn ni’n bwriadu edrych arno?**




10. Ar dudalen 18 rydyn ni wedi bod yn sôn am Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

**Sut ydych chi'n meddwl fydd y cynllun yn effeithio ar arwyddwyr BSL? Meddyliwch am:**

- **Fydd y cynllun yn helpu pobl i ddefnyddio BSL yng Nghymru?**
- **Fydd y cynllun yn helpu i wella gwybodaeth a gwasanaethau i arwyddwyr BSL?**

Cymraeg

11. Ydych chi’n meddwl bod y cynllun yn gallu cael unrhyw effeithiau ar y Gymraeg? Beth fyddech chi’n ei wneud i newid y rhain?



12. Defnyddiwch y gofod isod i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am unrhyw beth arall yn y cynllun.

# Geiriau anodd

## Cam-drin

Cam-drin ydy pan fydd rhywun yn dweud neu'n gwneud rhywbeth i'ch brifo neu wneud i chi deimlo'n ddrwg.

**Cam-drin rhywiol** ydy pan fydd rhywun yn cyffwrdd â'ch corff neu rannau preifat heb eich caniatâd, neu'n gwneud i chi gyffwrdd â nhw mewn ffordd nad ydych chi ei eisiau.

Mae **cam-drin domestig** yn meddwl unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwed i rywun. Mae'n cael ei wneud gan bartner, cyn-bartner neu aelod o'r teulu.

## Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl bod unrhyw un yn gallu defnyddio rhywbeth yn hawdd.

## Model cymdeithasol o anabledd

Mae'r Model Cymdeithasol Anabledd yn dweud bod y ffordd mae cymdeithas yn gweithio yn gallu stopio pobl anabl rhag gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud.

Dydy person ddim yn anabl gan ei nam neu ei wahaniaeth. Mae person yn anabl gan bethau yn ein cymdeithas.

Mae angen i gymdeithas newid ac addasu fel bod gwasanaethau yn ateb anghenion pobl. Mae hyn yn meddwl agweddau a dealltwriaeth pobl.

## Nam

Mae nam yn rhywbeth sy'n stopio eich corff neu'ch ymennydd rhag gweithio fel y dylai. Mae'n gallu bod oherwydd eich bod chi'n sâl, wedi'ch anafu, neu fod gennych broblem iechyd.

## Rhyddhau o'r ysbyty

Rhyddhau o'r ysbyty ydy'r broses sy'n digwydd pan fydd claf yn gadael yr ysbyty.

## System gyfiawnder

Y system gyfiawnder ydy llysoedd, heddlu, a charchardai. Mae'n gwneud yn siŵr bod pobl yn dilyn y gyfraith.